# CYFARFOD PENDERFYNIADAU AELOD O'R BWRDD GWEITHREDOL DROS ADNODDAU

**DYDD** Iau, 21 Medi 2017

**YN BRESENNOL: Y Cynghorydd:** D.M. Jenkins (Aelod o'r Bwrdd Gweithredol).

**Roedd y swyddogion canlynol yn bresennol:**
C. Moore, Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol
H. Humphreys, Uwch Prisiwr
K. Thomas, Swyddog Gwasanaethau Democrataidd

Swyddfa'r Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol, Neuadd y Sir, Caerfyrddin - 1.15 - 1.45 pm

## 1. DATGANIADAU O FUDDIANNAU PERSONOL

Ni chafwyd dim datganiadau o fuddiant personol.

## 2. ADRODDIAD NAD YW I'W GYHOEDDI

**PENDERFYNWYD yn unol â Deddf Llywodraeth Leol 1972, fel y'i diwygiwyd gan Orchymyn Llywodraeth Leol (Mynediad at Wybodaeth) (Amrywio) (Cymru) 2007 na fyddai'r eitem ganlynol yn cael ei chyhoeddi gan fod yr adroddiad yn cynnwys gwybodaeth eithriedig fel y'i diffiniwyd ym Mharagraff 14 o Ran 4 o Atodlen 12A i'r Ddeddf.**

## 3. TIR YNG NGORLLEWIN CROSS HANDS

**Yn sgil cynnal y prawf budd y cyhoedd, PENDERFYNWYD yn unol â'r Ddeddf y cyfeiriwyd ati yng nghofnod 2 uchod beidio â chyhoeddi cynnwys yr adroddiad am ei fod yn cynnwys gwybodaeth eithriedig ynghylch materion ariannol neu faterion busnes unrhyw unigolyn penodol (gan gynnwys yr Awdurdod oedd yn meddu ar y wybodaeth honno) (Paragraff 14 o Ran 4 o Atodlen 12A i'r Ddeddf).**

**Mae prawf budd y cyhoedd yn y mater hwn yn ymwneud â'r ffaith bod y budd i'r cyhoedd o ran cynnal yr eithriad mewn perthynas â'r adroddiad dan Ddeddf 1976 yn drech na'r budd i'r cyhoedd o ran datgelu'r wybodaeth sydd ynddo gan y byddai datgelu'r wybodaeth yn peryglu cyllid cyhoeddus.**

Rhoddodd yr Aelod o'r Bwrdd Gweithredol ystyriaeth i adroddiad a fanylai ar gynigion ynghylch tir yng Ngorllewin Cross Hands.

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL fod y cynnig diwygiedig y manylwyd arno yn yr adroddiad yn cael ei dderbyn.**

________________________________ ____________________

**AELOD O'R BWRDD GWEITHREDOL** **DYDDIAD**